



Bwrdd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Adeiladu gwyntwch busnes:
Rhestr Wirio Rheoli a Lliniaru
Risg

Bydd risgiau'n amrywio ymysg busnesau bwyd a diod unigol; felly, nid yw'n fwriad i'r rhestr wirio hon fod yn rhestr gynhwysfawr o'r holl risgiau, ond yn hytrach yn gymorth i'r cof i'ch helpu i feddwl am agweddau gwahanol eich busnes a pha risgiau all effeithio ar eich busnes. Byddwn bob amser yn argymhell eich bod yn cael cyngor cyfreithiol neu broffesiynol lle y bo'n briodol.

Gair am Ymadael â'r UE – er bod rhai o'r pwyntiau isod yn berthnasol i ddeall sut y gallai Ymadael â'r UE effeithio ar eich busnes, nid bwriad y rhestr wirio yw mynd i'r afael â hynny yn benodol.

Fel man cychwyn

Meddyliwch yn fras am y risgiau sy'n wynebu eich busnes e.e. pobl, cwsmeriaid, cyflenwyr, cyfarpar, capasiti prosesu, ac ati.

Meddyliwch am y ffactorau allanol sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth, ond a allai effeithio ar eich busnes e.e. amrywiadau arian cyfred, newidiadau deddfwriaethol, newidiadau mewn patrymau cymdeithasol, amodau masnachu economaidd.

Allwch chi ragweld sut y gallai'r ffactorau allanol hyn effeithio ar eich busnes (gall y rhain fod yn effeithiau cadarnhaol yn ogystal â rhai negyddol)?

Bydd nifer o fusnesau'n cael budd o gael cofrestr risg, sy'n nodi'r risgiau allweddol, y tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd (uchel, canolig neu isel) ac effaith y risgiau ar eich busnes (uchel, canolig neu isel). Mae hyn yn helpu i flaenoriaethu mesurau lliniaru – canolbwyntio ar feysydd sydd â risg ac effaith uchel.

Mewnbynnau/cyflenwyr

Ydych chi'n or-ddibynnol ar un neu lond llaw o gyflenwyr ar gyfer cynhwysion allweddol; ydych chi'n gwybod sut y gallech chi ddod o hyd i rai eraill petai eich cyflenwyr yn methu â bodloni eu rhwymedigaethau i chi?

☐

Beth am fewnbynnau eraill? Pecynnu, logisteg, darnau sbâr ar gyfer cyfarpar/cynnal a chadw, cyfleustodau, lle mewn warws? Ystyriwch sut y gallai unrhyw risg sy'n gysylltiedig â'r cyflenwyr hyn gael ei thaenu neu ei lliniaru. Gallai ymarfer mapio cyflenwyr eich helpu i ganfod unrhyw wendidau.

☐

A oes modd i chi brynu unrhyw fewnbynnau ymlaen llaw er mwyn sicrhau'r prisiau gorau ac osgoi cynnydd sylweddol mewn prisiau, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag amrywiadau tymhorol o ran galw? Ac a allwch chi gynllunio gwaith cynnal a chadw ymlaen llaw?

☐

Gwiriwch eich contractau gyda'ch cyflenwyr. Pa gymalau Force Majeure sydd ganddyn nhw ar waith?

☐

Cwsmeriaid/sianeli:

Ydych chi'n or-ddibynnol ar un sianel neu gwsmer masnach? Allwch chi ganfod ffyrdd o daenu'r risg honno petai cwsmer yn rhoi'r gorau i fasnachu gyda chi?

☐

Ydych chi'n gwybod gyda phwy rydych chi'n masnachu? Ydych chi wedi ymgymryd ag unrhyw gamau diwydrwydd dyladwy ar eu cyfer, ymchwilio i statws credyd, gofyn am eirdaon?

☐

Peidiwch â chynnig telerau credyd yn syth i gwsmer newydd – defnyddiwch anfonebau pro forma i ddechrau.

☐

Oes gennych chi fusnes tymhorol iawn lle mae'r galw'n amrywio rhwng bod yn uchel iawn ac yn isel iawn? A allech chi ddod o hyd i sianeli, cwsmeriaid, cynnyrch newydd a fyddai'n helpu i unioni'r natur dymhorol?

☐

Cadwch gysylltiad agos â'ch cwsmeriaid masnach, a chyfathrebu'n rheolaidd gyda nhw, fel eich bod yn deall eu cynlluniau/cynigion hyrwyddo a sut y gallai'r rhain effeithio ar eich busnes. Siaradwch â nhw cyn gynted â phosibl os ydych chi'n methu gwneud rhywbeth – mae sgysiau agored yn meithrin ymddiriedaeth.

☐

A allai traciwr neu fynegai prisiau ar fewnbynnau allweddol eich helpu mewn trafodaethau â chwsmeriaid er mwyn sicrhau eich bod yn cynnal eich elw?

☐

Buddsoddwch mewn achrediadau fel BRC a SALSA sy'n cynnwys gweithdrefnau lliniaru risg a bydd yr archwiliadau'n eich helpu i ganolbwyntio ar y mesurau lliniaru risg hyn.

☐

Cyllið a Chyfreithiol:

Oes gennych chi ddigon o gyfalaf gweithio i ymdopi â'r amrywiadau mewn galw? Bydd unioni'r natur dymhorol yn eich helpu i liniaru'r risg o beidio â chael digon o gyfalaf gweithio ac osgoi benthyca tymor byr drud.

☐

Pan fyddwch yn dechrau canfoð risgiau a'r costau cysylltiedig, dylech eu cynnwys yn eich rhagolygon. Dylech ddechrau gydag achos sylfaen ac yna modelu senarios amrywiol sy'n seiliedig ar risgiau ac effeithiau gwahanol. Bydd eich banc/darparwyr cyllið yn gallu gweld eich bod wedi ystyried y risgiau a sut bydd eich busnes yn ymateb/masnachu drwy'r risgiau hynny.

☐

Cadwch gysylltiad agos â'ch banc neu ddarparwyr cyllid, a chyfathrebu'n rheolaidd gyda nhw – dylech reoli'r cyfathrebiadau hyn a meithrin ymddiriedaeth â nhw.

☐

Oes gennych chi'r strwythur delfrydol yn eich busnes i gyfyngu ar unrhyw atebolrwydd personol os bydd rhywbeth yn mynd o chwith? Rhowch ystyriaeth i strwythur cwmni cyfyngedig a chofrestru ar gyfer TAW.

☐

Pa yswiriant sydd gennych chi ar waith? Ydych chi'n deall yr hyn maen nhw'n ei ddiogelu a'r hyn nad ydyn nhw'n ei ddiogelu?

☐

Ydy eich telerau ac amodau masnach yn ddigonol? Pryd wnaethoch chi adolygu contractau ddiwethaf? Oes angen iddyn nhw gael eu diweddarau i adlewyrchu'r amodau masnachu presennol a'r camau Ymadael â'r UE sydd ar y gweill?

☐

Materion yn ymwneud â Covid-19:

Ydych chi wedi rhoi'r holl ragofalon y gallwch chi eu cymryd ar waith er mwyn cadw pobl yn ddiogel yn eich busnes ac osgoi achosion/trosglwyddo yn y gweithle? Mae Arloesi Bwyd Cymru wedi cyhoeddi canllawiau helaeth sydd ar gael yma: <http://foodinnovation.wales/canllawiau-diwydiant-bwyd-a-diod-cymru-arf-er-gweithgynhyrchu-da-covid-19/>

☐

Os ydy pobl yn sâl neu os oes angen iddyn nhw dreulio 14 diwrnod mewn cwarantin, oes gennych chi gapasiti prosesu digonol i barhau i weithgynhyrchu neu a oes gennych chi ddigon o stoc i barhau i gyflawni archebion cwsmeriaid?

☐

Sut gallai rhagor o gyfyngiadau symud lleol/cenedlaethol effeithio ar eich busnes?

☐

Ydych chi wedi ystyried sut y byddwch yn cyfathrebu â'ch cwsmeriaid, gweithwyr, undebau llafur, y cyfryngau, rhanddeiliaid eraill petai achos yn eich ffactori neu safle?

☐

Pobl:

Ydych chi wedi cymryd pob cam rhesymol i gadw pobl yn ddiogel yn eich busnes ac yn ddiogel o ran Covid? Mae Arloesi Bwyd Cymru wedi cyhoeddi canllawiau helaeth sydd ar gael yma: <http://foodinnovation.wales/canllawiau-di-wydiant-bwyd-a-diod-cymru-arfer-gweithgynhyrchu-da-covid-19/>

☐

Oes gennych chi staff ar y ffyrlo sydd angen dod yn ôl i'r busnes a'u hailhyfforddi?

☐

Ydych chi'n dibynnu ar lafur mudol i'ch helpu drwy'r amrywiadau tymhorol?

☐

Ydych chi'n dibynnu ar sgiliau, profiadau, perthnasau unigolion allweddol yn y busnes? Beth yw eich cynllun os nad yw'r unigolion hyn ar gael?

☐

Oes gennych chi fylchau sgiliau allweddol yn eich busnes sy'n risg yn y tymor byr neu'r hirdymor? Beth yw eich cynlluniau i lenwi'r bylchau hyn mewn sgiliau?

☐

Oes gennych chi gynlluniau wrth gefn ar waith i'r staff sy'n dychwelyd o'u gwyliau neu deithiau dros y môr ac sydd angen treulio 14 diwrnod mewn cwarantin? Ydych chi wedi holi eich staff i weld a ydyn nhw'n bwriadu mynd dramor a sut gallai hyn effeithio ar eich busnes os nad ydyn nhw'n gallu dychwelyd i weithio am 14 diwrnod arall?

☐



Caðw mewn cysylltiad

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cymorth ariannol fel benthychiadau a grantiau a ddarperir gan y llywodraeth i fusnesau y mae Covid-19 wedi effeithio arny'n nhw, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/cymorth/cymorth-ariannol-grantiau>

I gael cyngor a chymorth ynghylch achrediadau, cysylltwch ag Arloesi Bwyd Cymru:

<http://foodinnovation.wales/arloesi-bwyd-cymru/>

I gael sgwrs gyfrinachol ynghylch rheoli risgiau yn eich busnes bwyd neu ddiod, anfonwch e-bost i:

bwyd-food@bic-innovation.com